# DELTA
## I CHI

# LLINELL GYMORTH DDIGIDOL TUNSTALL




# CANLLAW SEFYDLU HAWDD

Mae'r canllaw hwn ar gyfer cwsmeriaid ac aelodau o'r teulu. Mae'n esbonio sut i sefydlu'r Llinell gymorth Ddigidol Tunstall mewn ychydig o gamau syml.

## BETH SYDD YN Y BOCS

- Uned Llinell Gymorth Ddigidol
- Cebl pŵer a phlwg
- Larwm o gwmpas y gwddf neu'r arddwrn
- Cerdyn gwybodaeth cyflym




**Os oes unrhyw beth ar goll, cysylltwch â ni**

## CYN I CHI DDECHRAU

- ✓ Gosodwch yr uned llinell gymorth yn y **prif le byw**
- ✓ Dylai fod yn **agos at soced pŵer**
- ✓ Gall yr uned gysylltu mewn dwy ffordd:
  - **Opsiwn A: Rhwydwaith symudol** (nid oes angen llinell ffôn na rhyngrwyd)
  - **Opsiwn B: Llwybrydd band eang yn y cartref** (gan ddefnyddio cebl rhyngrwyd)





# **CAM 1:** PLYGIO'R CEBL I MEWN

Tynnwch yr uned a'r cebl pŵer allan o'r bocs





Plygiwch y cebl pŵer yng nghefn yr uned llinell gymorth

Plygiwch y pen arall i mewn i'r soced wal

Trowch y pŵer ymlaen

Bydd yr uned yn goleuo ac yn dechrau yn awtomatig

## **CAM 2:** CYSYLLTU'R UNED

### **Opsiwn A:** Rhwydwaith symudol

***Defnyddiwch yr opsiwn hwn oni bai ein bod wedi dweud wrthych fel arall***

- Peidiwch â phlygio unrhyw beth arall i'r uned
- Bydd y llinell gymorth yn cysylltu'n awtomatig gan ddefnyddio'r rhwydwaith symudol
- Gallai hyn gymryd rhai munudau

**Pan fydd yn barod, bydd y goleuadau yn stopio fflachio neu bydd llais yn cadarnhau ei fod yn gweithio**

### **Opsiwn B:** Defnyddio eich llwybrydd band eang yn y cartref

***Defnyddiwch yr opsiwn hwn dim ond os ydyn ni wedi dweud wrthych chi***

- Plygiwch un pen o'r cebl rhyngrwyd i mewn i'r uned llinell gymorth
- Plygiwch y pen arall i'ch llwybrydd band eang
- Gadewch y pŵer arno

**Bydd yr uned yn cysylltu'n awtomatig Gall hyn gymryd rhai munudau**

## **CAM 3:** PROFI'R LLINELL GYMORTH

- Pwyswch y **botwm cymorth coch** ar yr uned llinell gymorth
- Aros i'r gweithredwr ateb
- Dywedwch wrthyn nhw mai **galwad prawf** ydyw

**Mae hyn yn cadarnhau bod yr uned wedi'i chysylltu ac yn gweithio**

## **CAM 4:** PROFI'R LARWM GWDDF NEU'R LARWM AR YR ARDDWRN

- Gwisgwch y larwm o gwmpas eich gwddf neu'ch arddwrn
- Gwasgwch y botwm ar y larwm
- Siaradwch â'r gweithredwr pan fydd yn ateb

**Mae hyn yn gwirio bod y larwm yn gweithio unrhyw le yn y cartref**

LLESIANT DELTA WELLBEING

0300 333 2222

llesiantdelta.org.uk

Cwmni sy'n eiddo i

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council